YSGOL BRYNREFAIL

SBOTOLAU ar JOSH ROBINSON

Y mae Josh Robinson, sy'n hanu o Geunant, yn gwneud enw da cenedlaethol iddo hun ym myd Pêl Fasged. Neidiodd ein gohebydd i gael sgwrs gyda fo.

Pryd wnest di ddechrau chwarae pêl fasged?

Yr oeddwn yn 12 oed, newydd ddechrau ym Mrynrefail a chwarae am y tro cyntaf yn ystod gwers ymarfer corff

Ac o hynny?

Aeth criw o'r ysgol i chwarae mewn twrnamaint yng Nghaernarfon, ac fe gynigiodd Mr Siôn Parry, hyfforddwr tîm Eryri, i mi ymuno gyda charfan Eryri.

Oes 'na lawer o ymarfer?

Wel am flwyddyn rown i'n mynd i ganolfan Maesglas ym Mangor yn unig ond fel mae pethau wedi datblygu a pob wythnos rŵan dwi'n ymarfer ym Maesglas Bangor, Canolfan Caergybi ac Ysgol David Hughes ym Mhorthaethwy. Ond yn awr yn mynd i Ganolfan Caernarfon ar nos Wener. Dwi'n lwcus fod fy nheulu yn gefnogol yn enwedig fy nhad sy'n gyrru fi bob ymarfer a gem. Mae fy nhad, gyda llaw, wedi chwarae pêl fasged dros Gymru hefyd.

Rwyt yn dal i chwarae i dîm Eryri?

Ydw, yng nghynghrair Arfordir Gogledd Cymru ac yn gorfod teithio i dre'r Fflint bob pythefnos i chwarae'r gemau. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn 2ail ac rwy'n chwarae i'r timau dan 18.

Ac yn ystod un o'r gemau?

Wel, fe welodd Hyfforddwr Cymru un o'r sesiynau ymarfer a chefais fy ngwahodd i Ddyffryn Rhondda ar gyfer y treialon.

Ac o hynny?

Wel dwi di gael fy newis yn un o bymtheg aelod o sgwad Cymru a'r Haf nesaf yn teithio i Andorra a San Marino i gynrychioli Cymru mewn twrnamaint pel fasged.

Hogyn Brynrefs – da 'de